CYMDEITHAS CYFIEITHWYR CYMRU

Datganiad i'r Wasg

Gwobr Goffa Wil Petherbridge

Catherine Lowe o Dregarth ger Bangor yw enillydd Gwobr Goffa Wil Petherbridge eleni.

Cyfieithydd ar ei liwt ei hun yw Catherine Lowe. Yn wreiddiol o Lanfrothen ger Penrhyndeudraeth, cafodd ei haddysg yn Ysgol Ardudwy, Harlech, cyn graddio yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Bu'n gweithio yn y cyfryngau, yn gyntaf gyda'r BBC ac yna i wahanol gwmnïau annibynnol, cyn troi at gyfieithu dair blynedd yn ôl.

"Fyddwn i ddim wedi breuddwydio sefyll yr un arholiad oni bai i Jane Owen, Cyfieithydd Cyngor Sir Ddinbych, awgrymu y byddai'n dda o beth i mi sefyll arholiad Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru gan fod cymhwyster felly'n debyg o ddod yn ofyniad cyffredinol cyn bo hir," eglurodd Catherine Lowe.

Cyflwynir y wobr i Catherine Lowe gan enillydd y llynedd, Tudur Jones, mewn seremoni ddydd Gwener yr Eisteddfod Genedlaethol am hanner dydd ar stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, rhif 207-208.

"Rydym yn llongyfarch Catherine yn wresog iawn ar ei champ ac ar yr un pryd yn cofio'n annwyl iawn am gyfaill a chydweithiwr y bu ei golli'n ergyd drom iawn i ni i gyd," meddai Berwyn Prys Jones, Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Cyflwynir Gwobr Goffa Wil Petherbridge yn flynyddol gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru er cof am gyn-Ysgrifennydd y Gymdeithas ac arloeswr ym myd cyfieithu yng Nghymru. Fe'i rhoddir i'r ymgeisydd a gafodd y marciau uchaf yn arholiadau Aelodaeth Sylfaenol y Gymdeithas, cyfieithu i'r Gymraeg, yn ystod y ddwy rownd a gynhaliwyd yn Hydref 2008 ac Ebrill 2009.

Bydd y chwilio am enillydd 2010 yn dechrau ar 3 Hydref 2009 pan gynhelir Arholiadau Aelodaeth nesaf Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru yn Aberystwyth, Caerdydd a Chaernarfon.

- **I gael gwybod rhagor, cysylltwch â Geraint Wyn Parry, Prif Weithredwr Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - 07872 102944**

- **Mae stondin Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - rhif 207-208 - gyferbyn â Theatr y Maes**

English copy overleaf . . ./